IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 29 IONAWR 2019

Yn bresennol: Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)

Cynghorwyr Derbyshire a/ac Goddard

11 : GWAHARDD Y CYHOEDD

Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i eithrio o'i gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio o'r disgrifiad sydd ym mharagraff 14 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gallai'r cyhoedd fod wedi'i wahardd o'r cyfarfod drwy benderfyniad y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 wrth i'r eitem hon gael ei thrafod.

PENDERFYNWYD – gwahardd y cyhoedd.

12 : MATERION CERBYD HACNI / LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD – Y dylid trin y materion canlynol fel y nodir:

(1) Cais 1

Ystyriodd yr Is-bwyllgor gŵyn a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd. Honnwyd bod gyrrwr cerbyd hacni wedi ychwanegu tâl ychwanegol o £2 am gario dros bedwar o deithwyr heb roi gwybod y cwsmer. Y tâl ychwanegol caniataol oedd £1.

Dywedwyd wrth yr aelodau, ar ddechrau'r daith, gofynnodd y teithiwr faint byddai cyfanswm y ffi. Dywedodd y gyrrwr y byddai'r daith yn costio £4.50. Fodd bynnag, ar ddiwedd y daith, codwyd £2 ychwanegol. Cwynodd y cwsmer y cafodd y mesurydd ei gychwyn cyn bod y car wedi gadael y rhes; ni ddywedwyd wrtho am y tâl ychwanegol; roedd y y tâl ychwanegol yn uwch o'r hyn a ganiatawyd; a phan gwestiynodd y tâl ychwanegol gyda'r gyrrwr, ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

Ymatebodd y gyrrwr i'r honiad. Dywedwyd wrth yr aelodau y bu'r gyrrwr yn gweithio fel gyrrwr trwyddedig yn y Ddinas ers 30 o flynyddoedd ac ni dderbyniodd unrhyw gwynion erioed. Cychwynnwyd y mesurydd ar ddechrau'r daith fel arfer. Roedd y car mewn rhes ac nid oedd yn bosibl iddo dynnu allan. Roedd nifer y teithwyr yn fwy na 4 ac felly roedd tâl ychwanegol o £1 yn gywir ond codwyd y £1 ychwanegol ar gam.

PENDERFYNWYD–bod y gyrrwr yn derbyn rhybudd ysgrifenedig am beidio â rhoi gwybod i deithwyr pan eir i daliadau ychwanegol.

(2) Cais 2

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried cwyn a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd bod gyrrwr cerbyd hacni wedi gwrthod taith. Dywedodd tyst ei fod wedi mynd ata y car cyntaf mewn rhes o dacsis a gofynnodd iddo fynd ag

ef adref i Laneirwg.  Gwrthododd y gyrrwr dderbyn y daith.

Dywedodd y gyrrwr nad oedd wedi parcio yn y rhes.  Roedd wedi parcio mewn encilfa, roedd ei gerbyd dan glo ac roedd yn sefyll y tu allan i'w gerbyd yn cael seibiant.  Dywedwyd wrth y cwsmer i ymuno â rhes tacsis yn Heol yr Eglwys Fawr lle y gallai marsialiaid eu helpu.  Roedd yn benwythnos rhyngwladol rygbi ac roedd rhes hir o bobl yn aros.  Dywedwyd wrth yr aelodau y bu'r gyrrwr yn gweithio yn y busnes ers 2011 ac ni fu unrhyw gwynion blaenorol.  Dywedodd y gyrrwr ei fod bob amser yn glynu at ei amodau gwasanaeth.

Gofynnodd yr aelodau i'r tyst a oedd arwydd 'i'w logi' y cerbyd wedi'i oleuo. Dywedodd y tyst nad oedd y golau wedi'i oleuo.

I grynhoi, dywedodd y tyst nad oedd yn feddw neu'n ymddwyn yn ymosodol.  Roedd y car ar flaen y rhes.  Ar ôl cael ei wrthod gadawodd yr ardal a chael tacsi ar res arall.

Dywedodd y gyrrwr ei fod yn llysgennad dros y Ddinas a'i fod yn mwynhau ei waith.  Ar yr achlysur hwn nid oedd yn ceisio cael ei logi, bu'n gweithio trwy'r dydd ac roedd hawl ganddo gael seibiant.

PENDERFYNWYD – Na ddylid cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach.

(3) Cais 3

Wedi'i ohirio am 1 mis

(4) Cais 4

Derbyniodd yr Is-bwyllgor sylw gan dyst a gwynodd fod gyrrwr cerbyd hacni wedi gwrthod taith.  Dywedodd y tyst fod hi a'i ffrind, a oedd mewn cadair olwyn wedi bod i weld sioe yng Nghanolfan y Mileniwm.  Aethant at gerbyd hacni a gofyn a oedd y cerbyd ar gael.  Dywedodd y gyrrwr ei fod ar gael. Fodd bynnag, ar ôl dweud eu bod nhw eisiau mynd i'r Orsaf Ganolog dywedodd y gyrrwr fod y gadair olwyn yn rhy fawr ac ni fyddai'n ffitio yng nghist y car.  Dywedodd y tyst wrth y gyrrwr y byddai'r gadair olwyn yn ffitio i mewn i Fiat 500 ac fe'i rhoddwyd yng nghist Vauxhall Astra ar y ffordd i Ganolfan y Mileniwm.  Derbyniodd y gyrrwr daith gan ddau deithiwr arall a gadawodd yr ardal.

Cafodd y gyrrwr ei gynrychioli gan gynrychiolwyr yr undeb Unite. Dywedwyd wrth yr aelodau, yn gynharach y diwrnod hwnnw, roedd y gyrrwr wedi hebrwng ei ffrind i gyfarfod yn y mosg.  Roedd y ffrind yn mynd ar ei wyliau a rhoddodd siwtces mawr yng nghist ei gerbyd.  Ar ôl mynd â'i ffrind adref dechreuodd weithio.  Yn ddiweddarach, sylweddololodd fod y siwtces yn y cist o hyd.  Mae'r gyrrwr yn deall sut byddai'r digwyddiad yn ymddangos i'r tyst ond nid oedd unrhyw fwriad bwriadol i wrthod taith gan gwsmer mewn cadair olwyn.  Ymddiheurodd y gyrrwr am ei gamgymeriad ac unrhyw ddryswch a achoswyd.

Gofynnodd yr aelodau a oedd y gyrrwr yn ystyried rhoi'r gadair olwyn neu'r

siwtces yn sedd y teithiwr neu yng nghefn y cerbyd er mwyn gwneud lle i'r ddau deithiwr. Dywedodd y gyrrwr ei fod heb wneud ond ei fod yn ceisio dod o hyd i dacsi arall iddynt.

PENDERFYNWYD – Bod y gyrrwr yn derbyn rhybudd ysgrifenedig a methu bodloni'r safonau gwasanaethau disgwyliedig.

(5) Cais 5

Ystyriodd yr aelodau fater disgyblu sy'n perthyn i yrrwr a oedd wedi derbyn rhybudd gan yr heddlu am feddu ar offeryn â llafn mewn lle cyhoeddus. Dywedwyd wrth yr aelodau, ar y noson dan sylw, cododd y gyrrwr gwsmer ym Mhlas Windsor. Yn gyntaf nid oedd yn ymwybodol bod 5 teithiwr yn ei gerbyd. Pan sylweddolodd, dywedodd y gyrwyr ei fod wedi gofyn i un o'r teithwyr adael y cerbyd. Wedyn ymosododd y teithwyr yn ddifrifol ar y gyrrwr. Gorfodwyd ef i adael ei gerbyd. Aeth y gyrrwr i'r Orsaf Heddlu Ganolog. Aeth at ddau swyddog heddlu a oedd yn ymwybodol bod ymosodiad wedi digwydd a dywedodd wrthynt mai ef oedd y dioddefwr.

Wedyn dywedodd y gyrrwr fod yr heddlu wedi mynd yn ôl i'w gerbyd. Daethant o hyd i gyllell Stanley ar y llawr ger ddrws y teithiwr. Wedyn arestiwyd y gyrrwr. Dywedodd yr aelodau fod y gyllell Stanley a rhywfaint o offer llaw arall yn y car oherwydd bod y gyrrwr wedi bod i iard sborion yn ddiweddar i brynu darnau ar gyfer ei gerbyd. Defnyddwyd y gyllell Stanley i dorri deunydd torri ceblau a ddefnyddir i sadio ei biben wacáu. Dywedodd y gyrrwr ei fod yn derbyn rhybudd am y drosedd.

Derbyniodd yr aelodau ragor o sylwadau parthed amgylchiadau personol y gyrrwr.

PENDERFYNWYD – Na ddylid cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach.

(6) Cais 6

Gofynnodd yr aelodau i'r gyrrwr esbonio amgylchiadau'r troseddau. Dywedodd y gyrrwr ei fod wedi derbyn 3 pwynt cosb am fynd dros y terfyn cyflymder 30 mya a 6 pwynt cosb arall ar gyfer dwy drosedd arall parthed signalau traffig. Roedd y gyrrwr yn edifarhau am ei weithredoedd ac ymddiheurodd. Dywedodd ei fod wedi cael dwy brofedigaeth o fewn cyfnod amser byr ac roedd yn debygol yr effeithiwyd ar ei allu i farnu'n gall o ganlyniad.

PENDERFYNWYD - Gyrrwr i dderbyn rhybudd ysgrifenedig am droseddau gyrru.

(7) Cais 7

Dywedwyd wrth yr aelodau y cafodd ymgeisydd am drwydded gyrwyr cerbydau hacni/llogi preifat ei ddal yn twyllo. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried ar oedd y gyrwyr yn berson addas a phriodol i fod yn meddu ar drwydded.

Derbyniodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan swyddog yn y Tîm Trwyddedu. Dywedwyd wrth yr aelodau, yn ystod y prawf gwybodaeth, cafodd yr ymgeisydd ei ddal yn copïo'r atebion o daflen atebion ymgeisydd arall. Ar ddiwedd yr arholiad, parhaodd yr ymgeisydd i gopïo’r atebion, hyd yn oed pan oedd y swyddog yn mynd â’r papur arholiad i ffwrdd. Gofynnodd yr ymgeisydd am ragor o amser i gael gorffen copïo’r atebion. Pan gafodd ei herio, cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod yn twyllo.

PENDERFYNWYD - Gwrthod cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni neu Gerbyd Llogi Preifat.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.45 pm